# y Dinesydd

TACHWEDD 1993 PAPUR BROS DINAS CAERDYDD RHIF 198


# PRIFDDINAS EWROPEAIDD ERBYN 2000 ?



Arwain ymgyrch i sicrhau Senedd etholedig yng Nghaerdydd - dyna'r her sydd wedi ei gosod i gynghorwyr amlwg y ddinas gan Lywydd Plaid Cymru.

Yng nghynhadledd flynyddol y Blaid, gafodd ei chynnal yn Neuadd Dewi Sant yn ddiweddar, pwysleisiodd Dafydd Wigley yn ei araith fel Llywydd fod 'na rôl bendant i Gaerdydd fel prifddinas mewn cyd-destun Ewropeaidd. Ond rhybuddiodd na fyddai'r ddelfryd honno'n cael ei gwireddu'n llawn heb Senedd. Roedd Caerdydd yn cael llawer o fanteision fel prifddinas eisioes meddai, yn enwedig o ran dennu swyddi a buddsoddiadau ond dim ond wrth roi arweiniad i weddill Cymru y byddai'n ennill parch y genedl. Anogodd Mr Wigley arweinwyr y ddinas i fod ar flaen y gad yn yr ymgyrch i scrhau democratiaeth i Gymru trwy alw am Senedd yn ein prifddinas.

Mae apêl Llywydd Plaid Cymru yn un amserol iawn gan fod ymgyrch gref ar y gweill ar hyn o bryd gan gynghorau'r ddinas i bortreadu Caerdydd fel prifddinas Ewropeaidd ei statws. Mae arweinydd Llafur Cyngor De Morgannwg, Russell Goodway, eisioes wedi croesawu cynllun y llywodraeth i greu cyngor unedig ar gyfer y ddinas fydd yn cynnwys rhannau o Fro Morgannwg.

Mewn cyhoeddiad diweddar mae'r cyngor yn pwysleisio mai prif nod unrhyw strategaeth ar gyfer Caerdydd yn y blynyddoedd nesaf fydd cynyddu'r boblogaeth i hanner miliwn yn y pendraw - ond does 'na ddim sôn am senedd yn y strategaeth honno. Mae gan lawer o'r dinasoedd y bydd Caerdydd yn ceisio cystadlu â nhw Senedd yn barod fel Barcelona, Luxembourg a dinasoedd rhanbarthol yr Almaen, a does dim dwywaith y byddai'n rhaid i Gaerdydd gael ei Senedd ei hun i ennyn parch y dinasoedd Ewropeaidd eraill.

## CYWIRIAD

Cysylltodd Mr Michael Jones, is-gadeirydd cangen De Morgannwg o Rhag (Rhieni dros Addysg Gymraeg) â ni ynglŷn â'r stori tudalen flaen mis Hydref. Yn ôl pob tebyg mae'r ffigwr o 308 sy'n cyfeirio at nifer y plant a gychwynnodd eu haddysg eleni yn gamarweiniol gan mai dim ond nodi y mae nifer y plant sy'n byw yng Nghaerdydd yn unig. Y ffigwr cywir yw 480. O gofio bod cangen De Morgannwg o'r mudiad am wasgu ar yr awdurdod addysg i brysuro'u cynlluniau i agor ail ysgol uwchradd Gymraeg i wasanaethu'r Fro erbyn 1995 dylid fod wedi cymryd i ystyriaeth y nifer sy'n byw yn y Fro hefyd. Felly, mae nifer y plant a gychwynnodd eu haddysg eleni yng Nghaerdydd a'r Fro oddeutu 480. Mwy o reswm fyth i fynd â'r maen i'r wal lle mae'r awdurdod addysg yn y cwestiwn.

## Celtic
## HENDERSON CROSTHWAITE

BROCERIAID STOC A RHEOLWYR
BUDDSODDI ANNIBYNNOL

Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru

# "Yng ngheg y sach y mae cynilo"

**Yn gyntaf, dewch i siarad â ni**
**Dafydd Hampson-Jones**
**neu Howard Bailey**

Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd, CF1 9UP
ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn o grŵp Guinness Mahon Holdings ccc., yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain.



APOLLO

***YMCHWILWYR A SGRIPTWYR***

*Mae Ffilmiau Apollo yn chwilio am Ymchwilwyr a Sgriptwyr Rhaglenni Meithrin.*
*Os ydych chi'n berson bywiog sy'n llawn syniadau a phrofiad o weithio gyda phlant meithrin, ysgrifennwch atom ar frys.*

***FFILMIAU APOLLO***
***Canolfan y Cyfryngau, Croes Cwrlwys***
***Caerdydd CF5 6XJ. 0222 590119***



## SÊR YN SALEM
*gyda*

***Côr Aelwyd Caerdydd***
***Côr Ysgol Treganna***
***Peter Yates (gitarydd)***
***ac eraill***

Y cyflwynydd yw Iwan Thomas

Nos Sadwrn, Rhagfyr 4 am 7.30 o'r gloch

Tocynnau: £3 i oedolion a £1 i blant



Amgueddfa Genedlaethol Cymru

# Y Goeden Nadolig

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU
## Sain Ffagan, Caerdydd

6-9pm, Mercher, Iau, Gwener, 8,9,10 Rhagfyr, 1993
(Drysau ar agor 5.40pm)
Mynediad am y tâl arferol neu drwy Docyn Tymor

**Sion Corn yn Dosbarthu Taffi**
**Canu Carolau yng Nghapel Pen-rhiw**
**Y Fari Lwyd, Dawnsio Gwerin**
**Addurniadau Traddodiadol yn nhai Rhyd-y-car**
**Crefftwyr Arddangos a Ffair Grefftau**

***Dewch â fflachlamp!**
Y Brif fynedfa : oddi ar M4 (Cyffordd 33)
Gwybodaeth bellach: Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Ffôn: (0222) 569441

*Diolch i noddwyr yr ŵyl, Trydan De Cymru a Tetra Pak Wrecsam*




# *Pam talu £9.95?*

**GAIR I GALL**
Geiriadur Acen-ar gyfer dysgwyr ond yn ddefnyddiol i bawb.
Geiriadur sylfaenol, wedi ei gynllunio yn arbennig ar gyfer dysgwyr, yn hawdd i'w ddefnyddio mewn clawr meddal.


**Dim ond £7.45**
**i siopwyr personol yn unig, tra bod y stoc yn parhau.**

***Arbedwch £2.50* wrth ymweld ag ORIEL**
**Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA I lawr y ffordd o'r Theatr Newydd.**

**Yn agored chwech diwrnod o'r wythnos 9.00 - 5.30**
- ***Agoriad hwyr y Nadolig:***
- ***Dydd Iau 9 Rhagfyr***
- ***Dydd Iau 16 Rhagfyr***
- ***Dydd Iau 23 Rhagfyr***



# PROFIAD BYTHGOFIADWY



Fe aeth saith ohonom o dan ofal Alun Roberts am 'wyliau addysgiadol' i'r Amerig dros yr haf. Mae pob un ohonom yn aelod o gangen Caerdydd o Operation Friendship, mudiad rhyngwladol sy'n trefnu'r math yma o wyliau. Buom yno am dair wythnos gyfan yn aros gyda theuluoedd yn ardal Leicester, Massachusetts.

Yn ystod ein arhosiad yno cawsom hwyl arbennig. Ymwelasom â'r atyniadau lleol fel Amgueddfa Sturbridge, pentref tebyg i Sain Ffagan, lle mae'r trigolion i gyd yn mynd o gwmpas eu gwaith yng ngwisgoedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Roedd y profiad o aros mewn cartref Americanaidd yn un i'w gofio a chawsom rannu hwyl a sbri bywyd yr ifanc yn y wlad anferth hon.

Does dim dwywaith amdani mai uchafbwynt y daith i mi oedd yr ymweliad ag Efrog Newydd. Gwelais y 'Manhattan skyline' enwog o fwrdd fferi, ac mae adeiladau fel y Statue of Liberty a'r World Trade Centre yn fyw o flaen fy llygaid yn awr - adeiladau enfawr fel petaent yn codi o'r dŵr. Os byth y cewch chi gyfle i ymweld ag Efrog Newydd manteisiwch arno. Mae'n ddinas anghygoel a gellid treulio wythnosau yno yn ceisio gweld popeth.

Bu'r tair wythnos yn brofiad bythgofiadwy. Fe gyfarfuom ni â nifer fawr o bobl yr ardal a daethom i'w hadnabod fel ffrindiau - cyswllt a fydd yn para am flynyddoedd, gobeithio.

**Aled Williams**

## CYCHWYN SIMSAN I'R APÊL NADOLIG

Siomedig oedd ymateb ein darllenwyr i ran gyntaf ein hapêl am danysgrifwyr newydd i Dinesydd 2000. Mae ail ran yr ymgyrch ar droed gyda chyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Dinesydd, ac anogwn bawb sydd eisoes wedi derbyn ffurflen danysgrifio oddi wrthym i'w llenwi a'i dychwelyd.

A rhag ofn eich bod chi wedi ei cholli, neu heb gael un drwy'r post eto, llenwch y ffurflen sydd ar y dudalen hon, er mwyn helpu i ddod â gwên i Ddolig y Dinesydd.

**Alun Ceri Jones, Cadeirydd**

TAFOLI

Cyfle i chi gael dweud eich dweud

## BYW YN Y 'GHETTO CYMRAEG'?

Fuoch chi wrthi gyda chwydd wydr yn ceisio canfod faint oedd yn siarad Cymraeg yn eich rhan chi o'r ddinas yn ôl y map yn y rhifyn diwethaf? Os do, yna tybed ydach chi'n un o'r rhai sy'n byw yn y 'Ghetto Cymraeg'.

Wel dyna'r disgrifiad gan ambell un erbyn hyn o'r ardaloedd o Gaerdydd gyda dros 10% o Gymry Cymraeg yn ôl y cyfrifiad diwethaf. Dyma nhw - Radur, Llandaf, Yr Eglwys Newydd a Rhiwbeina, ac nid yw Sain Ffagan, Cyncoed, Y Rhath a'r Mynydd Bychan na Llysfaen ymhell ar ôl ychwaith. Dydi'r peth ddim yn annisgwyl i'r rhai ohonom sy'n byw yma, ac mae'n sicr fod 20% yn nes ati mewn ambell i stryd erbyn hyn. Rheswm da dros gael eich ystyried yn leiafrif ethnig, efallai, fel y myn ambell i gorff cyhoeddus yn ôl eu darpariaeth Gymraeg.

A sôn am gyrff cyhoeddus, cefais air gyda cyfaill i mi o Fôn am y penodiadau diweddar i'r Bwrdd Iaith - 'Tri chynnig i Gymro' meddan nhw a tri phen i'w bregeth sydd gan bregethwr hen gorff wrth iddo geisio gwasanaethu'r Bod Mawr, felly dyma fynd am y rhif tri, mae'n siŵr. Tri aelod o'r hen Fwrdd yn dal yno - wel mi roedd yn rhaid cael rhywun oedd yn gwybod beth oedd wedi ei gytuno o'r blaen. Tri darlithydd/wraig newydd - roedd yn rhaid talu'n go lew iddyn nhw ac fe ddylai hynny wneud yn siŵr eu bod yn cael deupen llinyn ynghyd yn lle eu bod ar eu cythlwng. O ia, a tair merch hefyd....fyddai hi ddim yn gwneud y tro i gael mwy o ferched ar y Bwrdd Iaith nag a gafodd eu hethol i gabinet yr wrthblaid!

**PROCIWR**

## Y Dinesydd Rhagfyr

**Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at Ysgrifennydd y Pwyllgor Golygyddol, Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Rhagfyr 1.**

# Apêl Nadolig y Dinesydd

***Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000***

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, ℅ Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000

☐ £15 ☐ swm arall

(nodwch faint) £_______

Enw: ..............................

Cyfeiriad: ..............................

..............................

..............................

Rhif ffôn: ..............................

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

***Archeb Banc***

I Fanc ccc ..............................

Cangen ..............................

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £______ i ddechrau ar___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilêwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..............................

Rhif y cyfrif ..............................

Llofnod (ion) ..............................

Dyddiad ..............................


Dyluniwyd gan Androulla Cleovoulou 0633 220985 ● Argraffwyd yng Nghaerdydd gan Hartleys Printing Co 0222 460636

NEWYDDION

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

- Ar Hydref 21 roeddem yn bwriadu croesawu Mrs Mary Wiliam i'n plith i sôn am Hen Bethau, ond yn anffodus bu'n amhosibl i Mary ddod - gobeithio dy fod yn well erbyn hyn, Mary. Wrth lwc, bu'r Parch Maxwell Evans yn barod iawn ei gymwynas, ac fe ddaeth i lenwi'r bwlch a hynny ar ganol wythnos o brysurdeb mawr iddo. Diolch o galon iddo am ddod i'n difyrru ar fyr rybudd. Diolch hefyd iddo am ganiatâd i dâpio'i sgwrs fel bod ffrindiau'r Gymdeithas sy'n methu dod am eu bod yn gaeth i'r tŷ, yn cael cyfle i rannu ym mlas y Gymdeithas, ac i wybod ein bod ni'n cofio amdanynt.
- Ar nos Iau, Tachwedd 25 byddwn yn ymweld â Chymdeithas Ddrama'r Crwys i weld eu perfformiad o 'Ni a Nhw'.
- Nos Iau, Rhagfyr 16 byddwn yn croesawu Mrs Mallt Anderson am 7.30 o'r gloch yn Llyfrgell Rhiwbeina pan fydd hi'n sôn am 'Hen Arferion y Nadolig'. Dewch yn llu.
- Llongyfarchiadau i Paul Jones, mab Mansel a Kathleen, Heol Wen, ar ennill Ysgoloriaeth Styring ar sail gwaith blwyddyn gyntaf yn darllen Ffiseg yng Ngholeg Y Frenhines, Prifysgol Rhydychen. Paul oedd myfyriwr gorau ei flwyddyn yn ei goleg, ac mae'n amlwg bod dyfodol ddisglair o'i flaen. Mae'n gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf, ac yn unawdydd da - daeth yn drydydd ar yr unawd bariton rhwng 19 a 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.
- Braf oedd clywed bod Marilyn Jarret, Beulah Road, allan o'r ysbyty ar ôl triniaeth ar ei chefn unwaith eto. Brysia i wella, Marilyn, a phob hapusrwydd hefyd i Alan yn ei ymddeoliad.
- Pob lwc i Iwan Doull, mab Hazel a Ted, Heol Llanishen Fach, wrth iddo arall-gyfeirio. Ar ôl ennill gradd mewn Daearyddiaeth, a gweithio am rai blynyddoedd, mae Iwan newydd ddechrau cwrs yn y gyfraith ym Mhrifysgol Morgannwg, Trefforest. Pob llwyddiant iddo.
- Mae Mrs Eunice Williams, Pen-y-dre, yn parhau i wella ar ôl bod yn yr ysbyty am chwe wythnos dros yr haf. Daliwch ati!
- Mae Ysgol Feithrin Rhiwbeina yn cynnal 'Clwb 100' i godi arian. Os oes unrhyw un yn fodlon cyfrannu £8 y flwyddyn, mewn un swm, er mwyn cefnogi'r ysgol, fe fydd Mrs Elin James, 65 Porthamol Road, Rhiwbeina yn falch i glywed oddi wrthych. Fe fydd rhan o'r arian yn cael ei roi fel gwobr fisol, a'r gweddill yn mynd i goffrau'r Ysgol Feithrin.
- Mae Ysgol Feithrin Rhiwbeina yn cynnal Twmpath Dawns ar nos Sadwrn, Rhagfyr 11 am 8 o'r gloch yn neuadd Ysgol Melin Griffith. Pris y tocynnau yw £3.50, sy'n cynnwys lluniaeth ysgafn, a gellir eu prynu gan Mrs Elin James yn y cyfeiriad uchod.

# LLÊN A BYWYD GWERIN DAN SYLW



Penodwyd yr ysgolhaig rhyngwladol, Trefor M Owen, yn Athro Anrhydeddus mewn Astudiaethau Gwerin o fewn Adran y Gymraeg, Coleg Caerdydd. Am y tro cyntaf erioed mae Prifysgol Cymru yn cynnig gradd MA mewn Astudiaethau Gwerin, ac er fod y pwnc yn cael ei ddysgu'n helaeth mewn prifysgolion yn Ewrop a Gogledd America nid oedd modd graddio yn y pwnc hwn yng Nghymru cyn hyn.

Yn ystod ei yrfa bu Mr Owen yn astudio am gyfnod yn Adran Bywyd Gwerin, Prifysgol Uppsala yn Sweden, sef un o ganolfannau pwysig y ddisgyblaeth yn Ewrop. Mae hefyd wedi cyhoeddi a chyfrannu'n helaeth i'r maes a rhoi Cymru ar fap Astudiaethau Gwerin rhyngwladol. Bu'n ddarlithydd mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Cymru Coleg Bangor cyn cael ei benodi, ym 1971, fel olynydd Iorwerth C Peate, yn Guradur Amgueddfa Werin Cymru. Bu'n dal y swydd hyd ei ymddeoliad ym 1987.

I gynnig y radd unigryw hon daeth Adran y Gymraeg ac Amgueddfa Werin Cymru at ei gilydd gyda chefnogaeth brwd y Curadur presennol, Eurwyn Wiliam, gan fanteisio ar arbenigrwydd staff y naill sefydliad a'r llall. Yn y modd hwn mae'n bosib cynnig cyfuniad o gyrsiau arbenigol iawn. Yn ôl yr Athro Glyn E Jones, Pennaeth Adran y Gymraeg, 'Bydd adnoddau helaeth yr Amgueddfa a'r Coleg yn cynnig defnyddiau astudio neillltuol i'r efrydydd.' Amgueddfa Werin Cymru yw un o brif amgueddfeydd Ewrop ac fe'i hystyrir ymysg amgueddfeydd awyr agored pwysicaf y byd. Yno ceir casgliadau helaeth o adeiladau, offer, celfi, archif sain nodedig, dogfennau, ynghyd â llyfrgell arbenigol.

## CALENDR Y CYMDEITHASAU


- Fis Mai diwethaf dadorchuddiwyd ffenestr liw yn Eglwys Y Crwys er cof am Annie ac Eiry Humphreys. Bywyd a gwaith yr emynyddes Ann Griffiths yw thema'r lluniau a'r golygfeydd sydd yn y ffenestr, a nos Iau, Medi 30 daeth y crefftwr a'i lluniodd, Gareth Morgan, ar ymweliad â Chymdeithas y Crwys i sôn am ei waith dan y teitl 'Defnyddio Golau'. Cynbennaeth Adran Ieithoedd Modern yn Ysgol Bro Myrddin yw Gareth Morgan, a rhoes heibio'r yrfa honno er mwyn canolbwyntio ar grefftwaith gwydr lliw. Ef fu'n gyfrifol hefyd am y ffenestr liw arall, yn portreadu bywyd y Perganiedydd, a osodwyd yn y capel ddwy flynedd yn ôl i goffáu Eunice George.

  Ar ôl sôn am hanes y grefft, eglurodd y crefftwr sut y bu'n astudio cefndir cyfnod y ddau emynydd cyn cynllunio'r ffenestri er mwyn gofalu, er enghraifft, fod manylion y dillad yn gywir - bu staff Amgueddfa Sain Ffagan o gymorth mawr iddo yn y cyfeiriad hwn. Yna, gyda chymorth darnau o wydr lliw a rhai o'r offer y bydd yn eu defnyddio wrth ei waith, dangosodd pa mor ofalus y mae'n rhaid iddo fod wrth osod y darnau gwydr yn y plwm sy'n eu dal wrth ei gilydd yn y cynllun, fel bydd y ffenestr yn para'n gyfan am flynyddoedd maith. Enghraifft ddiweddar arall o waith Gareth Morgan yw ffenestr liw yn Eglwys y Plwyf, Pontyberem.

- Mewn cyfarfod difyr iawn o gangen Y Bontfaen o Ferched y Wawr ar Hydref 11, bu Eira Rowley, un o'r aelodau, yn sôn am ei gwaith ym myd nyrsio, a'r gwahaniaethau a'r newidiadau mawr a fu yn y maes hwn er pan gychwynnodd hi ar y gwaith yn y 50au.
- Cafwyd noson hynod o ddiddorol, addysgiadol a chyfoethog yn y Cylch Llyfryddol, nos Wener, Hydref 15 wrth i'r Dr J. Gwynfor Jones ddarlithio ar 'John Penri a'i Bobl'. Yn ei ddull hanesyddoldrefnus soniodd am gefndir, cymhellion a chyfraniad y Piwritan mawr, gan gyfeirio ato fel 'Cymro twymgalon' ac eto'n 'ffôl o fyrbwyll'. Olrheiniodd Gwynfor y frwydr barhaol rhwng crefydd a gwleidyddiaeth y cyfnod, ymgyrch anturus-beryglus y Tractiau Marprelate a chred yr Anwahanwyr fod 'pechodau o fewn y tir yn fwy o elynion na'r Armada'.

  Ennynodd drafodaeth fywiog a buddiol, a diolchwyd iddo gan y Dr Dewi Eurig Davies. Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 19 yn Adeilad y Dyniaethau y Brifysgol pan fydd y Dr R Geraint Gruffydd, Aberystwyth yn darlithio ar 'Saunders Lewis yr awdur'. Croeso cynnes i bawb.
- Bydd Cymdeithas Carnhuanawc yn cyfarfod nos Fawrth, Rhagfyr 7 yng Nghlwb Ifor Bach am 8 o'r gloch pan fydd cymdeithasau y ddinas yn cynnal Cwis Y Ganrif.
- Y Dr Owen Jones fydd yn darlithio i Gymdeithas Wyddonol Caerdydd a gynhelir ar nos Lun, Rhagfyr 13 yng Nghlwb Ifor Bach am 7.30 o'r gloch. Bydd yn sôn am waith ei gwmni, Agrisense, sy'n gwneud pla-leiddiaid biolegol. Dulliau 'gwyrdd' o reoli pryfed sy'n bwyta ein ffrwythau a'n llysiau fydd byrdwn ei ddarlith, ac mi fydd o ddiddordeb mawr i unrhyw un sydd am fwynhau ffrwythau a llysiau heb gemegau arnynt.

Tudalen sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.




# Y COLEG AR EI GEFN

Ar 26 Hydref 1893, cyhoeddwyd cartŵn yn y Western Mail yn dangos dyn moel a barfog, mewn gwisg academaidd, yn cludo adeilad ar ei gefn. Yn ei ymyl y mae arwyddbost sy'n dangos fod yr adeilad yn cael ei gludo o Bont-y-pŵl i Gaerdydd.

Ymddangosodd y cartŵn i gyd-fynd â chyfarfodydd arbennig yng nghapel y Tabernacl ar yr Ais i nodi agor coleg gan y Bedyddwyr yng Nghaerdydd. Sefydlwyd coleg yn y Fenni ym 1807 i hyfforddi gweinidogion ar gyfer eglwysi'r Bedyddwyr. Symudodd y coleg i Bont-y-pŵl ym 1836. Ac yna, gan mlynedd mlynedd union yn ôl, symudodd y coleg i Gaerdydd er mwyn bod yn agos at goleg newydd y Brifysgol. Cafwyd cartref dros dro yn adeiladau Eglwys Bedyddiedig Longcross Street, ac yna yn Ionawr 1895 symudwyd i'r adeilad yn Richmond Road sydd yn parhau yn gartref i'r coleg hyd heddiw.


Y dyn sy'n cludo'r coleg i Gaerdydd yn y cartŵn yw prifathro'r coleg, Dr William Edwards (1848-1929). Bu'n brifathro am dros ddeugain mlynedd, o 1880 hyd 1925. Dywedodd rhywun amdano ei fod, ar hyd y cyfnod maith hwnnw, wedi cario'r coleg nid yn unig ar ei gefn, ond hefyd yn ei galon. Ac ar ben ei gyfraniad i fywyd y coleg, bu'n ŵr o gryn ddylanwad yng Nghaerdydd, yn ei enwad, a thrwy Cymru.

Brodor o ardal Login yng ngorllewin sir Gaerfyrddin oedd William Edwards, a chafodd fagwraeth dlawd ond duwiol yno. Roedd yn alluog iawn. Dechreuodd bregethu yn 14 oed; fe'i penodwyd yn diwtor yng ngholeg y Bedyddwyr yn Hwlffordd yn 23 oed; ac nid oedd ond 31 oed pan benodwyd ef yn brifathro'r coleg ym Mhont-y-pŵl. Roedd yn berson amlochrog ac egniol - yn bregethwr, awdur, gwleidydd, ysgolhaig, trefnydd, i enwi ond rhai agweddau ar ei weithgarwch. Yr oedd ganddo ddidd-ordeb byw mewn chwaraeon o bob math, ac yn 79 oed yr oedd yn dal i gyrchu Radur i chwarae golff. Nid rhyfedd i rai awgrymu ei fod yn 'myned yn iau wrth fyned yn hŷn'!

Yr oedd yn Gymro twymgalon. Un tro gofynnodd y pregethwr Saesneg grymus a ffraeth, C. H. Spurgeon, iddo, 'Os Cymraeg oedd iaith Gardd Eden, pryd y daeth y Saesneg i fod?' 'Ar ôl y Cwymp,' oedd ateb cyflym William Edwards.

Ond uwchlaw pob dim, gosodai bwys mawr ar y Beibl. Yr oedd yn feistr ar Roeg y Testament Newydd. Paratodd gyfieithiad Cymraeg newydd o'r Testament Newydd, gyda nodiadau testunol helaeth, sy'n parhau yn ddefnyddiol hyd heddiw. Ac ar ôl ei astudio'n fanwl dros flynyddoedd lawer, yr oedd yn ddiysgog ei gred mai'r Beibl oedd Gair datguddiedig Duw a'r unig ganllaw ddiogel ym materion cred ac ymddygiad.

E. Wyn James



# CADEIRYDD NEWYDD

Mewn Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Dwyrain Morgannwg a gynhaliwyd ar nos Fercher, Hydref 20, yng Nghapel Bethel, Penarth, fe urddwyd Mr Rowland Owen (Ysgrifennydd Cyffredinol Bethel) yn Gadeirydd y Cyfundeb am y ddwy flynedd nesaf.

Trwy gyd-ddigwyddiad hapus trosglwyddwyd Beibl y Cyfundeb i Mr Owen gan ei ragflaenydd yn y swydd, y Parchedig Cyril Llewelyn, Treorci - y ddau o'r un pentref, sef Glanaman, ac yn ei anerchiad o'r Gadair bu Mr Rowland Owen yn sôn am ei fagwraeth grefyddol yn yr ardal honno.

# NODWEDD

## COFIO RAYMOND

Dros orwel ein ffarwelio - ein hiraeth  
Erot nid â heibio;  
Galar ni all nac wylo  
Nacáu dy glywed o'n co'.

**Havard Gregory**

## COLLI CYMWYNASWR A CHYFAILL

### T RAYMOND EDWARDS

Gyda marwolaeth Raymond Edwards ym mis Hydref mae Cymru wedi colli cymwynaswr mawr a ninnau yng Nghaerdydd wedi colli cyfaill annwyl a gweithiwr diflino dros bopeth Cymraeg. Bu'n athro yn y ddinas, yn aelod o staff y BBC ac yn Arolygwr Ysgolion. Ond er cymaint y pwysau a'r galwadau arno fe wnai amser i hybu a chefnogi unrhyw achos yn ymwneud â'r iaith - ac hynny gyda'r brwdfrydedd oedd mor nodweddiadol ohono ac sy wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer. Roedd y Mudiad Ysgolion Cymraeg yn agos iawn at ei galon ac mae niferoedd o rieni, athrawon a disgyblion yn ddyledus iddo am ei genadwri - yn arbennig felly yn Y Barri lle bu'n amlwg iawn yn y frwydr i sefydlu'r Ysgol Gymraeg ym 1952 pan roedd ef a'i deulu'n byw ar yr Ynys.

Ond fe fyddwn ni, ddarllenwyr ***Y Dinesydd***, yn cofio amdano'n arbennig am ei gefnogaeth i'n papur bro. Ar ôl cartrefu yn Llandaf bu'n olygydd am gyfnod ac yna am flynyddoedd lawer yn aelod ffyddlon o'r pwyllgor rheoli. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu adegau anodd yn hanes y papur ond mynnai Raymond weld llygedyn o obaith ym mhob argyfwng a llwyddai bob amser i godi calonnau ei gyd-bwyllgorwyr. Un o'u pleserau mwyaf nhw fyddai ei weld ef a'i gyfaill, Gwyn Lewis Davies, yn troi ati ar ddiwedd cyfarfod hir a chaled i fwynhau sgwrs am y 'pethe'.

Cynhaliwyd cwrdd angladdol yn Amlosgfa Thornhill i gofio ac i ddathlu ei fywyd. Gallwn ninnau ychwanegu ein diolch iddo am ei wasanaeth hir i'r ***Dinesydd***

**Nia Hall Williams**

LYNN JONES

Buddsoddiadau  
Yswiriant Bywyd  
Pensiynau

30 Highfields, Llandaf  
Caerdydd CF5 2QB  
Ffôn 0222 562816

Fel y nodwyd ryw ddeufis yn ôl, roedd yn fwriad gennym i neilltuo tua un tudalen bob mis i bob ysgol Gymraeg yn y sir yn ei thro. Bellach mae'r prifathrawon o'r farn mai gwell fyddai cael cyfraniadau o wahanol ysgolion bob mis; felly, dyna a geir o hyn ymlaen - darnau amrywiol yn rheolaidd o fwy nag un ysgol yn hytrach na chyfran-iadau gan un yn unig.



Cafodd plant Ysgol Y Wern gyfle gwych i gwrdd T. Llew Jones yn ystod eu hymweliad â Llangrannog ym mis Hydref.

# FFAIR HYDREF YSGOL Y WERN

Dydd Sadwrn, nawfed o Hydref, fe ddaethom i gyd at ein gilydd ar gyfer ein Ffair Hydref. Pawb wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y prynhawn arbennig hwn.

Roedd nifer o stondinau wedi eu gosod yn y neuadd sef stondin gacennau, dillad ail law, llyfrau, teganau, nwyddau cartref ac, wrth gwrs, stondin yr ysgol ei hun. Fe fuom yn brysur yn paratoi ein canhwyllau, potiau, fframau lluniau, magnetau rhewgell a'n pwysau papur lliwgar. Roeddem ni i gyd yn awyddus i'w prynu a mynd adref â nhw.

I ni y plant roedd digon i'n diddori yn ystod y prynhawn. Roedd nifer o gêmau; un i ennill diodydd, twba lwcus, pêl rwyd, cylchoedd, taflu'r bêl a chastell sboncio.

Daeth nifer fawr o bobl i'r ffair i wario eu harian ac i gael hwyl. Fe fu rhai o'r mamau yn brysur iawn yn y gegin yn paratoi diodydd a chacennau blasus ar ein cyfer. Fe fu'r athrawon yn brysur yn gwerthu tocynnau raffl ac roedd nifer o wobrau da i'w hennill.

Fe welsom cryn dipyn o hen wynebau cyfarwydd. Fe ddaeth nifer o hen blant Y Wern yn ôl i ymuno yn yr hwyl. Diwrnod i'w gofio i bawb!

**Adroddiad gan**

| | |
|---|---|
| **Catrin** | **James** |
| **Nia** | **Gareth** |
| **Caroline** | **Anna** |
| **Eleri** | **Jenny** |

# YSGOLION

**O hyn ymlaen gobeithiwn gynnwys gwaith o wahanol ysgolion y brifddinas, a'r mis hwn mae Ysgol Glantaf ysgol y wern ac Ysgol Pencae yn gwneud cyfraniad.**

## GLANTAF

Ar ddechrau pob blwyddyn y mae plant dosbarth cyntaf Glantaf yn treulio wythnos yn Llangrannog. Mae rhai o'r Chweched Dosbarth yn mynd hefyd fel swyddogion. Dyma brofiad dwy chwaer eleni - y naill yn nosbarth un a'r llall yn nosbarth chwech.

# PROFIAD SWYDDOG YN LLANGRANNOG

Roedd mynd i Langrannog fel swog yn brofiad hollol wahanol i'r un o fynd fel gwersyllwr. Yn un peth doedd y gwersyll ei hunan ddim fel oedd e bum mlynedd yn ôl gyda'r pwll nofio a'r llethr sgïo newydd yn ychwanegu at yr hwyl. Roedd pethau ychwanegol gennym ni i'w gwneud fel agor y siop a'r banc a sgwad amser prydau bwyd. Ond doedd dim gwahaniaeth am hynny gan i ni gael sbort yn y pwll nofio tra bod y gwersyllwyr yn cysgu'n dawel tua hanner nos! Roedd cael dod i adnabod blwyddyn un a gwybod am bwy roedd fy chwaer fach yn siarad amdanynt yn gret. Gallem deimlo'n rhan o un ysgol er bod Glantaf ar ddau safle. Roedd digon o hwyl gyda dosbarth un a phawb yn mwynhau awyrgylch Gymreig y gwersyll.

Yn y dydd buom ni i gyd yn gwneud gweithgareddau - yn merlota, nofio, sgïo, beicio a sglefrolio. Roedd y gwersyllwyr yn llawer gwell na fi ar y llethr sgïo - methais yn deg â meistroli'r lifft sgïo. Glaniais ar fy mhenol sawl gwaith er mawr fwynhad i ddosbarth un! Aethom ni am dro i Aberteifi un bore i wneud helfa drysor. Sylwodd pob swog fod cerdded dros y mynydd i'r traeth yn llawer llai o straen â choesau hirach!

Roedd y rhan fwyaf o'r nosweithiau yn ein gofal ni'r swogs. Trefnasom ni noson swogs nos Fawrth lle roedd digon o gyfle i ni daflu stwnsh a dŵr at yr athrawon a difyrru pawb a Bleind Dêt a Sion a Sian a cheisio dod â chyplau at ei gilydd - y plant a'r athrawon! Nos Iau, tro'r gwersyllwyr oedd hi i'n difyrru. Buom yn ymarfer ar ôl tê ac yn ysgrifennu cân i'r côr. Ond doeddem ni'r swogs diniwed ddim wedi disgwyl dial yr athrawon ar ôl sbort nos Fawrth. Allan ddaeth y dŵr a'r stwnsh unwaith yn rhagor a chreu digon o embaras ar swogs anffodus.

Roedden ni gyd wedi penderfynu er gwaetha'r diffyg cwsg y byddem ni'n dod nôl yn yr haf petaem ni'n cael y cyfle - roedden ni wedi cael llawer o hwyl, a Rhiannon (y chwaer fach) eisoes wedi penderfynu dod nôl mewn pum mlynedd fel swog!

**Mererid Michael, Chwech Un**

*.........Ac o safbwynt y chwaer fach*

Profiad nad anghofiaf i fyth oedd mynd i Langrannog gyda Glantaf. Roedd y swogs yn gret, a'r athrawon yn llawn hwyl, ac fe ddaethom ni, Blwyddyn Un, i nabod ein gilydd yn well.

Fe gawsom ni hwyl di-ben-draw yn nofio, sgïo, sglefrolio, beicio, merlota, mynd ar y beiciau modur ac ar y cwrs antur. Unwaith fe aethom ni draw i Aberteifi i weld y dre ac yno roedd helfa drysor wedi'i pharatoi i ni, ac fe gawsom ni'n hunain yn dod o hyd i goncyrs, caniau pop a dail a phapurau newydd ac ateb cwestiynau ar y dre a'r eisteddfod ddaeth yno.

Mae mynd lawr i'r traeth yn hwyl, er y byddai'n haws mynd yno 'tasai'r mynydd ddim yn y ffordd. Ar waethaf hyn mae'n hwyl mynd dros y mynydd i'r traeth lle mae pawb yn trio osgoi'r môr ond yn llwyddo i wlychu'u traed a rhai yn gwlychu hanner eu cyrff a bron pawb yn dod nôl yn wlyb sop.

Y swogs oedd yn trefnu'r nosweithiau dawnsio gwerin un noson, Bleind Dêt noson arall a Sion a Sian, ar noson arall disgo swnllyd ac ar un arall fe gynhalion ni y plant noson lawen a chael llawer iawn o hwyl yn canu fel 'plant dan pump' neu fel 'hen bobl dros gant'. Do, fe gawsom ni lawer o hwyl yn y nosweithiau ac roedd yr wythnos yn gret.

**Rhiannon Michael, Blwyddyn 1**

# GORCHEST GLANTAF

*(Glantaf 21, Coleg Crist Aberhonddu 7)*

Wedi colli o drwch blewyn i St Cyres (diolch i'r dyfarnwr!) a pherfformiad siomedig yn erbyn Coleg Llanymddyfri, roedd yn dyngefenol i hyder y tîm bod Glantaf yn curo Coleg Crist Aberhonddu.

Wedi tyndra'r munudau cyntaf, cafwyd cais penigamp gan Glantaf. Symudwyd y bêl i'r asgellwr chwim (Mathew Williams) a wibiodd hebio'i ddyn cyn pasio i'r canolwr (Iwan Walters) a sgoriodd o dan y pyst. Troswyd y cais a chafwyd cic gosb wych gan y maswr (Gareth Williams). O fewn munudau roedd Glantaf ar y blaen 10-0. Ychwanegwyd at y sgôr, wedi cic gosb ragorol gan yr ail reng (Dafydd Parry).
Cyn yr egwyl, ochrgamodd yr asgellwr dde (Jonathan Williams) yn ddeheuig a sgorio cais gwych yng nghornel y cae. Ar yr egwyl roedd hi'n 18-0 i Lantaf.

Wedi'r egwyl, pwysodd Aberhonddu yn gryf, gan sgorio cais a'i drosi. Wedi gwrthsefyll pwysau trwm gan Aberhonddu, sicrhawyd buddugoliaeth wedi cic adlam y canolwr (Iwan Walters).

Cafodd traddodiadau gorau rygbi Glantaf eu cynnal yn y fuddugoliaeth ysgubol hon.

Iwan Walters

## Qu'y a-t-il pour votre service?

Ymadrodd defnyddiol i'r pump o ddisgyblion blwyddyn 13 Glantaf sydd ar brofiad gwaith yn Fécamp rhwng Hydref 16 a 30. Mae Heddwen Evans, Bethan Griffiths, Non Jones, Bethan Michael a Beca Walter-Jones yn gwneud lefel A Ffrangeg, ac maent wedi ymuno â disgyblion o Cantonian, Y Bont-faen a Stanwell ar y daith i Ffrainc. Bu cystadleuaeth frwd am y swydd mewn 'Boulangerie' (siop fara) - blasu'r bwyd yn rhan o'r gwaith - ond chafodd neb o Lantaf y fath fraint.... Maent yn gweithio mewn banc, siop adrannol, llyfrgell, cwmni plastig a chwmni electroneg!

## YSGOL PENCAE

**Bu rhai o'r disgyblion ar ymweliad ag Ysgol Maestir yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan, a chyfansoddwyd y gerdd yma yn dilyn y profiad hwnnw.**



### YSGOL MAESTIR

Gwisgom ddillad o'r gorffennol,
Tô llechi a wal gerrig,
inc du drewllyd a
hen ddesgiau pren,
abacws i ddysgu cyfri,
hen le tân du, myglyd,
ystafell dywyll, ddiflas.
Ofn yr athrawes gas.
Siaradom Saesneg.
Welsh Not a chwip.
Cloch yn canu,
Ding dong, ding dong.

**gan Christopher, Alys Meleri, Wil, Camilla, Gruffydd, Nanw a Justin**

**Daeth rhieni plant blwyddyn 2 i'r gwasanaeth dosbarth ar y thema 'bwyd'. Cawsant goffi a pice ar y maen a goginiwyd gan y plant. Dyma eu cerddi.**

### BARA

Bara brith blasus
Rhoddodd Nain i dê,
Diolch, Nain annwyl.

### MWYAR DUON

Mwyar duon du
Bydd Mam yn roi mewn tarten
O! Dyna flasus.

### AFAL

Coch, melyn, blasus,
Sy'n tyfu ar y goeden
Cwympa lawr i mi.



## YSGOLION CYMRAEG SANT FFRANSIS A SANT BARUC

Cynhaliwyd noson i weld fideo o Basiant Dathlu Deugeinfed Pen-blwydd Addysg Gymraeg yn Y Barri yn ddiweddar. Yn bresennol roedd Maer a Maeres Y Barri, Lionel a Dorothy Rees. Bu'r ddau ohonynt yn beirniadu cystadleuaeth cynllunio clawr i'r fideo a gyhoeddwyd i gofio'r achlysur, a chyflwynwyd gwobr gyntaf o docyn llyfr gwerth £15 yr un i Bronwen Burton a Carys Jones. Derbyniodd Carys Pile, Hayley Clarke, James Hewitson a Gareth Brereton wobrau cysur.

Gellir archebu copiau o'r fideo trwy'r ysgol.

## PROFIADAU PLANT

## DYSGU CYMRAEG

dan ofal Mair ac Alun Treharne

### FFAIR NADOLIG

Mae'n gyfnod cyffrous (exciting) yn ein cylch meithrin ni (our nursery group) ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi trefnu cynnal (to hold) Ffair Nadolig ddydd Sadwrn, 27 Tachwedd yn festri Capel Tabernacl, yr Ais (the Hayes), i godi arian i'r cylch,ac mae'r trefniadau'n dod ymlaen yn dda. Eto i gyd, ychydig wythnosau yn ôl dyma rai o'r pethau oedd yn ein poeni ni:


- Ydy'r ffair yn rhy gynnar?
- Oes digon o amser 'da ni i baratoi?
- Oes digon o rieni yn barod i helpu?
- Pwy sy'n mynd i drefnu beth?
- Fydd digon o nwyddau (goods) 'da ni?
- Beth am godi ar bobl i ddod i mewn - syniad da neu beidio?
- Faint o arian wnawn ni ei godi?
- Ydy pobl yn mynd i ddod?

Erbyn hyn mae brwdfrydedd (enthusiasm) pobl wedi codi calon pawb ac rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at ddiwrnod y ffair. Os byddwch chi yn y dre y diwrnod 'na ac am wneud ychydig o siopa Nadolig a chefnogi Mudiad Ysgolion Meithrin yr un pryd, cofiwch alw heibio. Fyddwn ni ddim yn codi crocbris am unryw beth!

Dyma rai ymadroddion defnyddiol sy'n cynnwys 'codi':

codi arian - to raise money
codi gwrychyn - to annoy
codi ar - to charge (someone)
codi tŷ - to build a house
codi calon - to hearten
codi cywilydd ar - to shame
codi crocbris - to charge an exorbitant price
codi hiraeth ar - to make one long for
codi awydd ar - to create a desire in someone to
codi arswyd/braw/ofn ar - to frighten

### DARLUNIAU BYW



**Y drwg yn y caws: achos y drwg (the cause of the trouble) e.e. mae'n debyg mai'r rhedwr newydd yw'r drwg yn y caws.**

Arlunwaith gan Cen Williams (*Darluniau Byw*, Gwasg Gomer, 1990)

CYD (CYNGOR Y DYSGWYR): DE MORGANNWG
*Parti Nadolig a Disgo*
Nos Fercher, 1 Rhagfyr, 1993
am 8 o'r gloch
**Clwb Ifor Bach**
Tocyn: £3 yn cynnwys lluniaeth
Manylion pellach/tocynnau: ffoniwch Carole neu Peter, Caerdydd 763426
*Dechrau Rhagfyr - Dechrau CYD-ddathlu'r Nadolig!*

## SIART ASTROLEGOL - YR ANRHEG PERFFAITH

Os am anrheg pen-blwydd neu Nadolig gwahanol a gwreiddiol beth am ddanfon siart astrolegol a'r rhagolygon am y flwyddyn sydd i ddod i gyfaill neu berthynas?

Mae hefyd yn anrheg gwych i'w roi i rieni babi newydd - darlun cwmws o'r bersonoliaeth fydd gan y bychan ymhen hir a hwyr, ei gryfderau a'i wendidau. Dyma rhywbeth y byddant yn gyfeirio ato dro ar ôl tro.

Cysylltwch yn y lle cyntaf ag **Eiry Palfrey, 10 River View Court, Llandaf, Caerdydd. Ffôn: 555055**

CYNLLUNIO CERDYN

## Cystadleuaeth Unigryw Cynllunio Cerdyn Nadolig 1994

Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn trefnu cystadleuaeth go arbennig ond amserol - cynllunio cerdyn Nadolig ar gyfer 1994.

Ceir tri chategori, sef Categori 1 sy'n gyfyngedig i Gylchoedd Meithrin, Categori 2 ar gyfer Ysgolion Cynradd a Chategori 3 yn agored i Ysgolion Uwchradd, Colegau Celf ac unigolion.

Ac er mwyn cystadlu mae'n rhaid dilyn y canllawiau canlynol:

1. Llunio cynllun mewn du a gwyn
2. Y cynllun i gyfleu neges y Nadolig ond ar yr un pryd yn adlewyrchu amcanion a gwaith y Mudiad Ysgolion Meithrin
3. Ceidw'r Mudiad Ysgolion Meithrin yr hawl i addasu'r cynllun cyn ei argraffu'n derfynol
4. Bwriedir cyhoeddi y tri chynllun buddugol (un ymhob categori) a'u gwerthu mewn pecyn o dri adeg Nadolig 1994
5. Bydd hawlfraint y cynllun yn eiddo i'r Mudiad Ysgolion Meithrin

Bydd y gwobrau yn cynnwys pecyn nwyddau Mabon a Mabli i enillydd Categori 1, pecyn arlunio yn Categori 2 a £50 yn Categori 3. Y dyddiad cau yw Ionawr 31, 1994, a dylid anfon y cynhyrchion i Mudiad Ysgolion Meithrin, 145 Albany Road, Caerdydd CF2 3NT. Rhif ffôn 0222 485510

## YR EGLWYS NEWYDD

Llongyfarchiadau i Chris Jones, Mudiad Ysgolion Meithrin, ar ennill gradd B.A. mewn Dyniaethau o Brifysgol Morgannwg, Trefforest. Mae'n un o'r garfan gyntaf o fyfyrwyr i raddio yn y brifysgol newydd.

# *Holi'r Sêr*

yng nghwmni

EIRY PALFREY

*ENW:*
Urien Wiliam
**DYDDIAD GENI:**
Tachwedd 7, 1929 - Scorpio
**AMSER GENI:**
Ddim yn gwybod
**MAN GENI:**
Abertawe
**DYDDIAD GENI EICH CYMAR:**
Rhagfyr 2 - Sagittarius
**HOFF LIW:**
Brown tywyll - lliw llygaid Eiryth
**HOFF FLODYN:** Cenhinen Bedr
**SUT BYDDWCH CHI'N TREULIO'CH ORIAU HAMDDEN?**
Darllen, gwylio'r teledu a ffilm, mynd i'r theatr, cerdded
**OES GYDA CHI HOBI?**
Beth Yw E? Gweler uchod
**BLE A PHRYD RYCH CHI HAPUSAF?**
Ar fy ngwyliau
**PA GAR SYDD GYDA CHI - A PHA LIW YW E?** Volvo, gwyn
**PA GAR HOFFECH CHI EI GAEL?**
Volvo gwyn mwy moethus, gyda tho haf, ffenestri trydan a pheiriant gwneud te yn y cefn
**BETH YW EICH HOFF FWYD?**
Golwythen o gig carw a gwydriad o win
**BLE RYCH CHI'N HOFFI MYND AM WYLIAU, A PHAM?** Gwyliau teithio i weld gogoneddau natur - a byta'n dda
**PWY YW EICH HOFF BERFFORMIWR?**
Bryn Terfel; Sioned; Steffan...
**PWY YW EICH HOFF AWDUR?**
Yn Saesneg - lleng - Forster, Asimov, Dickens, ac ati; yn Gymraeg, Marion Eames, nofelydd mwya Cymru erioed, gyda llaw
**BETH NEU BWY SY'N MYND AR EICH NERFAU?** Pobl sy'n siarad Cymraeg gwallus ar y teledu neu'r radio
**BETH YW EICH BAI MWYAF?**
a) Meddwl 'mod i'n well llenor a dramodydd nag ydw i, a b) Byta gormod
**BETH YW EICH CRYFDER MWYAF?**
Dyfalbarhad a dibynadwyedd, meddai Eiryth
**BETH YW EICH HOFF ANIFAIL?**
Cathod, er nad wyf am ofalu amdanynt
**PE CAWSECH CHI'R DEWIS YM MHA WLAD HOFFECH CHI FYW?**
Seland Newydd - gwlad fach ddwyieithog - a hinsawdd berffaith
**BETH SY'N EICH GWNEUD I CHWERTHIN?**
Hiwmor geiriol - tebyg a geir gan Angus Deaton yn 'Have I got News for You' a chomedi sefyllfa fel 'C'Mon Midffild' a 'Fo a Fe'
**PWY YW'CH HOFF GERDDORION?**
Beethoven, Brahms, Stravinski, Sibelius, Britten, Copland, ac yng Nghymru Morfudd Owen a Dilys Elwyn Edwards



### BARN YR ASTROLEGYDD

Ganwyd Urien dan arwydd Scorpio. Pobl benderfynol, sy'n gwybod yn gwmws beth mae nhw'n ei hoffi, ac yn gyndyn i gyfaddawdu. Gall fod braidd yn ymosodol weithiau ac fe allai ei bersonoliaeth gref godi ofn ar rai. Mi fydd yn byw yn ôl ei werthoedd ei hunan, ac nid safonau pobl eraill. Cewch wybod ei farn yn gwbl ddi-fledwyn-ar-dafod, a bydd Scorpio yn aml yn ddigon dewr i leisio yr hyn sydd ym meddyliau llawer ohonom (fel y cyfeiriad at y fratiaith ar y teledu). Mae yn berson dwfn a chyfrinachol iawn. Fe all hefyd fod yn eiddigeddus ar brydiau, (fel mae Urien wedi'i gyfaddef). Mae ei allu i ddod at ei hun ar ôl salwch neu anffawd yn anhygoel. Mae dod o hyd i'r gwirionedd yn bwysig iawn iddo. Mae ganddo ddiddordeb mewn gwyddoniaeth, meddygaeth a mewn datrys problemau o bob math. Dyma arwydd yr iachawr. Mae ganddo ewyllys gref a'r gallu i ddyfalbarhau pan fydd eraill yn methu. Mae'n berson cwbl ddibynnol, fel mae Urien ei hun yn cyffesu.


Ond dylai osgoi defnyddio'r bigiad enwog yn ei gynffon yn ddianghenrhaid - fe all frifo'n ddwfn, er mai anaml y bydd yn ei ddefnyddio. Mae'n dueddol o dynnu llawer o drafferth ar ei ben mewn bywyd. Mae tuedd ynddo weithiau i ddioddef iselder ysbryd.

Dyw Urien ddim yn gwybod pa amser y'i ganed, felly ni allaf edrych ar ei esgynnydd. Mae sawl cyfeiriad yn ei atebion yn gwneud i mi feddwl mai Taurus yw ei esgynnydd, ond dyfalu fyddai hynny. Ond ar adeg ei eni roedd Lleuad Urien yn arwydd Capricorn. Mae'r Lleuad mewn siart yn adlewyrchu ein teimladau, sut y byddwn yn ymateb yn reddfol i sefyllfa, a'n anghenion sylfaenol mewn bywyd.

Mae Capricorn yn arwydd ceidwadol iawn, felly dyw hoffter Urien o Volvo gwyn (ddwywaith) ddim yn fy synnu, na'i ffordd o dreulio ei oriau hamdden, a'i ddewis o gerddoriaeth, a'i hoffter o wlad geidwadol ei hagwedd fel Seland Newydd.

Mae Capricorn yn arwydd daear, ac yn hoff o'r wlad a golygfeydd. Mae hwn hefyd yn arwydd dibynnol iawn - mae Urien, felly, yn cael dwbwl dos o hynny yn ei siart. Fe ddywedwn i hefyd fod gallu anhygoel ganddo i ddyfalbarhau. Mae gan Capricorn hiwmor sych, a byddai wrth ei fodd yn chwerthin yn harti ar gastiau tîm Bryncoch, er mai'r Scorpio pigog ynddo sy'n gwerthfawrogi hiwmor geiriol Angus Deaton.

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 134



### *AR DRAWS*

7 Mae hwn bob amser ar y brig (4)
8 Mae hon yn mynd i'r Bermo yn gyson ers blynyddoedd (4,6)
10 Y ci dof am wneud ymrwymiad (8)
11 '— —— hyd yr ymylon' (2,4)
12 Bachgen yn mynd yn ddim - yn nychu (6)
13 Un allan o'r dyrfa sy'n glynu oni gyll ei drefn (8)
15 Cacenni nodweddiadol Cymreig (6,2,1,4)
18 Lle priodol y dyn anwydog - a phob llysieuyn hefyd (2,2,4)
20 Y botwm a sonnir amdano yng Nghaniad Solomon VII. (Yr hen gyfieithiad a'r newydd) (6)
22 Gafaelodd (6)
24 Wedi ei roi i'r naill ochr (1'1,6)
25 Lle go hallt rhwng Caernarfon a Bangor (1,9)
26 Cynhaliaeth dros dro i'r rhai diweddar (4)

### I LAWR

1 Yn raddol bach (3,2,5)
2 Selsig o'r Eidal (6)
3 Ystyriwch, ac o ganol y tryblith, cewch ei fod yn rhoi ysbryd newydd (8)
4 Yr wyt yn dangos teyrngarwch wrth ddod â ni at yr ymyl sigledig (6)
5 Cydgyfarfod i drafod mater agor y pwll o'r newydd (8)
6 Mae hyd yn oed y gwâr yn troi yn gwrs weithiau (4)
9 Cyffro ym Maenorbyr o A i U, berfedd nos (5,3,1,4)
14 Cymryd 'i le yn llu Tom, am ei fod yn gwrthod cydymffurfio (10)
16 Gorchuddio ffrwythau â siwgr a rhoi siâr i Luc yn gryno (8)
17 Nid coluro, ond ymdrwsio (8)
19 Perthyn i amryw (6)
21 Gwireb yw dweud fod hon yn wenwynig (6)
23 Blys sy'n cosi yn yr Ynys Fawr (4)

### CYSTADLEUAETH RHIF 133

Rhaid ymddiheuro am wall argraffu, sef bod un sgwâr a ddylai fod yn wyn wedi ei argraffu'n ddu, a hynny am i'r copi anfonwyd i Ap Lewsyn i'w gywiro fynd ar goll yn y post. Ar waethaf anhawster y gwall, derbyniwyd deg ymgais, a naw o'r deg wedi canfod a chywiro'r gwall. Clod iddynt am eu hymddiriedaeth fod Croesair Y Dinesydd bob amser i fod yn bendant symetrig. Yr enw a ddaeth ar hap o'r pentwr oedd eiddo E. Haydn Jones, 2 Heol Wen, Rhiwbeina, ac fe fydd y tocyn llyfr yn ei gyrraedd cyn bo hir. Yr wyth arall oedd yn gywir oedd: Huana Simpson, Y Bontfaen, Carys Humphreys, Bangor, John G. Breese, Glanyrafon, Guto Rhys, Y Rhath, Colin Murphy, Trelai, Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd, Gwenda Hopkins, Llanisien a Marged Davies, Llandaf.

### CYSTADLEUAETH RHIF 134

Tocyn Llyfr £5 eto. Pob ymgais i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Rhagfyr 3, os gwelwch yn dda.

### DATRYSIAD 133




## GEIRIAU CROES

# BYD Y BOL

gan Dafydd Saer

Yn ddiweddar bu i mi brofi un o'r siomedigaethau eithaf hynny sy'n llywio cwrs moesol bywyd. Roedd rhai o'm cymdeithion yn y gwaith (cythreuliaid mewn croen oll) wedi darllen yn **Y Dinesydd** rai misoedd yn ôl am fy uchelgais o gael mynd yn westai ar y rhaglen gylchgrawn ardderchog **Heno** yn fyw o ddinas Abertawe, i gael coginio pryd blasus i'r diddanwyr heini (y naill o gorff, y llall o dafod), Angharad Mair a Gary Slaymaker.

Yn ddiarwybod i mi, a minnau'n cysgu'n braf ar y llawr tu ôl i'r soffa, dyma un o'm cyd-weithwyr ciaidd yn ffonio **Heno** gan fynegi fy nyheadau uchod. Ac yn wir, o fewn ychydig ddyddiau daeth galwad bersonol i mi oddi wrth **Heno** yn gofyn pryd y medrwn fynd yno. Cymaint fy nghyffro fel prin y medrwn ddal y ffôn wrth fy nghlust, a bu'n rhaid i mi gynnau'r speakerphone. Fodd bynnag, trodd fy hapusrwydd yn chwerw mewn chwinciad, oherwydd y funud y soniais am gostau (buasai pris tacsi i Abertawe wedi fy nigolledu'n ddigonol) fe'm hysbyswyd y byddwn yn cael fy rhoi ar restr aros, a dyna ddiwedd ar yr alwad ffôn. Mae moeswers bwysig yn y stori hon, ac os medrwch ddyfalu'n gywir beth ydyw, cewch eich enw wedi'i gyhoeddi yn rhifyn cyntaf yr 21ain ganrif o'r **Dinesydd** - gyda chaniatâd caredig y golygydd, wrth gwrs.

Ydych chi wedi sylwi ar y ffordd ddiddorol y mae geiriau yn newid eu hystyr o bryd i'w gilydd? Er enghraifft, mae fy nghymydog - sy'n gyrru beic o gwmpas Splott yn dosbarthu porc peis i'r siopau cardod - yn cael ei ystyried yn 'ddefnyddiwr busnes', gan ei fod yn rhoi tail ceffyl ar ei ardd. Ychydig yn ôl byddai'r disgrifiad hwnnw wedi golygu ei fod yn defnyddio cyfrifiaduron a meddalwedd busnes yn ei waith. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae defnyddiwr 'meddalwedd busnes' yn golygu rhywun sy'n defnyddio papur tŷ bach meddal. Oes gennych chi fwy o enghreifftiau diddorol o'r newidiadau ieithyddol hyn? Cofiwch roi gwybod mewn da bryd i ni gael cychwyn y flwyddyn newydd mewn steil.

**YN EISIAU** - rhywun i wneud peth gwaith gweinyddol/ defnyddio prosesydd geiriau am nifer o oriau bob wythnos mewn swyddfa cynghorydd ariannol lle y bydd tua 80% o'r gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Telerau i'w trafod. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Darran Phillips ar 0222 224245 neu 0831 517472.

# Y CAMPAU

dan ofal Thomas Davies

## RYAN GIGGS - SEREN Y BÊL GRON

A Chymru'n ymdrechu mor llwyddiannus y dyddiau hyn i gyrraedd Rowndiau Olaf Cwpan y Byd y flwyddyn nesaf, dyma sy gan **Ian Gwyn Hughes** i'w ddweud am seren ddisgleiriaf y genedl.

George Best yr ail, medd llawer. Mae'n haws ei adnabod fel Ryan Giggs y cyntaf. Rhaid gofyn y cwestiwn a oes unrhyw chwaraewr pêl droed wedi denu'r fath ddiddordeb yng Nghymru? Ian Rush, Mark Hughes a Dean Saunders, efallai. Ond go brin fod gan yr un ohonyn nhw ddawn naturiol Giggs, a gafodd ei arddangos sawl tro ar y Maes Cenedlaethol.

Bachgen ifanc o Gaerdydd, yn fab i Danny Wilson, cyn chwaraewr rygbi tîm y Brifddinas. Mae o'n defnyddio cyfenw ei fam ers iddi hi ail-briodi a chyda hi yng Ngogledd Lloegr y cafodd o ei fagu.

Mi fu, ac mae yna o hyd ryw gymaint o waharddiad arno rhag sgwrsio â'r wasg. Nid oherwydd nad oes dim yn ei ben o. Mae o'n fachgen dymunol a gweddol o dawel. Ond yn y byd sydd ohoni, does gan y wasg fawr o ddiddordeb yn y person ei hun. Straeon ymylol - dyna'r nod, creu sgandal. Rhaid llongyfarch Alex Ferguson, rheolwr Manchester United, am ei agwedd.

Mae ganddo frawd iau, Rhodri, sydd hefyd yn beldroediwr ac yn aelod o glwb Torquay. Dydy o ddim cystal peldroediwr; diolch byth am hynny, oherwydd nad oes ond un Ryan Giggs.

---

Teg dweud na chafodd campau merched Cymru erioed ddigon o sylw yn unman. Hen bryd felly i'r **DINESYDD** sicrhau na ellir rhestru'r papur hwn ymhlith y rheiny a'u hanwybyddodd.

## PÊL RWYD YNG NGHAERDYDD

Fe gewch newyddion yn ddyddiol bron iawn ynglŷn â rygbi a phêl droed yn y Brifddinas, ond a wyddech chi fod pêl rwyd yn gêm boblogaidd iawn yng Nghaerdydd hefyd? Pêl rwyd yw'r gamp i fenywod sy'n cynyddu gyflymaf. Dewch i'r Athrofa Chwaraeon yng Ngerddi Sophia ar nos Fercher neu nos Iau, ac fe welwch dros 30 o dimau yn cystadlu'n frwd a chynhyrfus yng Nghyngrair Pêl Rwyd De Morgannwg. St Joseph's oedd Pencampwyr Cynghrair llynedd, ond Clwb Y Barri a enillodd Bencampwriaeth Genedlaethol y clybiau, (SWALEC yw'r noddwyr eleni!), a daeth y clwb hwn yn ail ym Mhencampwriaeth Ewrop fis Mawrth.

**Angharad Dafydd**

# NEWYDDION



Dyma lun o aelodau Clwb Pêl Droed yr Urdd De Morgannwg. Cychwynnwyd y Clwb o'r newydd yn ôl ganol fis Medi, ac erbyn hyn mae aelodaeth y clwb wedi cynyddu i hanner cant o blant saith oed i fyny o wahanol ysgolion Cymraeg De Morgannwg gan gynnwys Melin Gruffydd, Coed y Gof, Treganna, Pencae, Sant Baruc a Bro Eirwg. Mae'r clwb o hyd yn edrych am aelodau newydd sydd â diddordeb mewn ymuno â ni ar fore Sadwrn am 10 o'r gloch yng Nghaeau Llandaf. Rydym yn awyddus i glywed gan dimau Pêl Droed Cynradd eraill sydd â diddordeb mewn chwarae yn ein herbyn, ac hefyd rydym yn chwilio am gwmni sydd â diddordeb mewn noddi cit ar gyfer ein tîm. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb cysylltwch â Sian Jobbins ar Caerdydd 236201 neu 623275

---

# DIOLCH I BLANT YSGOL BRO EIRWG



Gwahoddwyd Mr Hywel Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin, a Mrs Chris Jones, Swyddog Datblygu'r Mudiad yng Nghaerdydd, i Ysgol Bro Eirwg ar yr wythfed o Dachwedd.

Roedd yn achlysur hapus iawn gan fod plant yr ysgol, yn eu gwasanaeth diolchgarwch, wedi llwyddo i gasglu £176 tuag at waith Is-bwyllgor Anghenion Arbennig De Morgannwg, Mudiad Ysgolion Meithrin.
Bydd yr arian yn cael ei wario er lles y plant naill ai ar y 'Cynllun Chwaraeg Gartref', neu ar brynu offer a theganau sy'n addas i'w defnyddio yn y Cylchoedd Meithrin.

Mae'r 'Cynllun Chwarae Gartref' yn unigryw. Caiff plant bach iawn, sydd ag anghenion arbennig, y cyfle i ddatblygu drwy chwarae, dan ofal gweithwyr profiadol, a hynny yn eu cartrefi eu hunain, heb gost i'r teuluoedd.
Mae Ysgol Bro Eirwg wedi ymdrechu i gyfannu nifer o blant ag anghenion arbennig - corfforol a meddyliol - i'r dosbarthiadau arferol. Gwelir effaith y gwaith a llawenydd amlwg y plant ar y fideo 'Helo Shwmae' sydd newydd ei lansio gan y Mudiad yn y Sir. (Gweler stori ar tud 11.)

Diolch yn fawr i'r prifathro, Mr Elfan Jones, a'i staff brwdfrydig, a haelioni'r plant am gynorthwyo'r Mudiad yn y ffordd ymarferol yma.

'Rydym ni yn y Mudiad yn ddyledus iawn i holl Ysgolion Cymraeg De Morgannwg am ddod i'r adwy i gefnogi ein gwaith,' meddai Chris Jones, Swyddog Datblygu'r Mudiad yng Nghaerdydd, 'yn enwedig y Cynllun 'Chwarae Gartref', gan fod pwysau ariannol cynnal y Cynllun yn cwympo'n uniongyrchol ar y Pwyllgor Sir.'

# HELO SHWMAE - LANSIO'R FIDEO!

Lansiwyd fideo arbennig iawn yng Nghwmni Elinor Wigley ym mhencadlys HTV yng Nghroes Cwrlwys ddechrau mis Hydref.

Roedd hyn yn dathlu pymtheng mlynedd o gyfannu plant a phobl ifanc yn ein cymdeithas yn Ne Morgannwg, a daeth trigain o bobl yngyd i nodi'r achlysur pwysig hwn.

Helo Shwmae! Dyna deitl fideo newydd Pwyllgor Anghenion Arbennig Mudiad Ysgolion Meithrin De Morgannwg. Ac yn wir, wrth edrych arno cewch hanesion diddorol hyfryd am blantos a phobl ifanc fu drwy system addysg gyfan gwbl Gymraeg ac a fu dan ofal y Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'n stori ramantus iawn ac yn dweud sut y mae MYM a RhAG wedi llwyddo i roi i blant ag anghenion arbennig gyfle i gael eu cyfannu'n llwyr yn ein cymdeithas a'n hysgolion. Dyfed a'u fideo nhw a ysbrydolodd De Morgannwg i ddweud ei stori a sut mae erbyn hyn yn gallu helpu plant yn eu cartrefi trwy y Cynllun Chwarae Gartre, ac yna mewn Cylch Ti a Fi ac ymlaen wedyn i gael y cyfle i gymysgu yn hwrlibwrli ysgol gyfun fawr fel Glantaf.

Margaret Knight drefnodd y ffilmio, Coleg Cyncoed wnaeth y gwaith ffilmio, a bu cylchoedd Meithrin, a holl brifathrawon Ysgolion Cymraeg De Morgannwg yn hael iawn gyda'u hamser. Robin Jones wnaeth y trosleisio, a Gwen McFadjien a'r pwyllgor wnaeth y trefnu a sicrhau bod diwedd hapus i'r stori.

# APÊL CYMDEITHAS CYMRY ARIANNIN

Y mae cynnydd syfrdanol yng ngweithgarwch Cymdeithas Cymry Ariannin yn y tair i bedair mlynedd diwethaf. Er enghraifft, eleni y mae'r Parchedig Arthur Meirion Roberts a'i briod yn gwasanaethu Eglwysi'r Wladfa. Mae Gwilym Roberts wedi dychwelyd yno i dreulio'i ail flwyddyn yn dysgu Cymraeg ledled Dyffryn Camwy. Yn ystod yr haf bu Mary Zampini drosodd yma am dri mis ar gwrs Addysg Feithrin, ac ar ôl dychwelyd mae wedi sefydlu Ysgol Feithrin Gymraeg yn y Gaiman gyda 11 o blant. Hefyd daeth tri llanc ifanc yma dros yr haf i fynychu Cwrs Carlam yng Ngholeg Llanbed - ffrwyth llafur dosbarthiadau Cymraeg Pedr McMullen yn y Gaiman y llynedd.

Gobeithiwn y flwyddyn nesaf dderbyn dau arall i Goleg Llanbed, ac anfon tri athro Cymraeg am flwyddyn, mewn ymateb i'r cynnydd a'r galw sydd yn dod o draw. Hyn i gyd yn ogystal â'n gweithgarwch arferol megis cynnal myfyriwr blynyddol yng Ngholeg Harlech a chadw'r cysylltiad rhyngom drwy ohebu, anfon llyfrau, cylchgronau, recordiau, tapiau ac yn y blaen.

Y mae ysbryd newydd a deffroad yn cerdded drwy Ddyffryn Camwy, yn arbennig ym mysg yr ifanc. Mae'r eisteddfodau yn ffynnu, y capeli, fel ninnau yn brwydro, *Y Dafod* yn parhau, dwy gangen o Ferched Y Wawr wedi'u sefydlu yn ddiweddar, un yn Nolavon a'r llall yn y Gaiman, ac yn goron ar y cyfan, dosbarthiadau Cymraeg yn codi fel madarch.

Gwirfoddol yw'r holl weithgarwch yma, ond ein bod fel Cymdeithas yn ogystal â gweinyddu'r holl gynlluniau hyn, yn ceisio talu costau teithio'n ôl a blaen i'r gwirfoddolwyr, sydd oddeutu ú1,000 y pen. Y mae'r Gwladfawyr yn ysgwyddo'r baich o gartrefu'r cyfeillion hyn tra yno.

Cri o'r galon yw hon am gyfraniadau i chwyddo ein coffrau prin, er gwireddu ein gobeithion, ac i gadw'r fflam sydd rhyngom a'r Gwladfawyr ynghynn. Bydd ein trysorydd newydd, Mr Rhys Jones, Llys Myrddin, Allt Saithaelwyd, Llangefni LL77 7TQ yn falch o dderbyn cyfraniadau oddi wrthych.

Am fanylion pellach cysyllter â Shân Emlyn ar 0222 567438.

**Eisiau Cartref**

Lodes lân o Gaerfyrddin yn chwilio am gartre oddi cartre yng Nghaerdydd. Ddim yn smygu. Mewn swydd. Ffoniwch 0850 903297

**Diolch Y Dinesydd**

Diolch i Gylch Cinio Gwragedd Caerdydd a Chylch Llyfryddol Caerdydd am eu cyfraniadau caredig i goffrau'r Dinesydd. Mae pob dimau o gymorth i ni!

**Cymorth i edrych ar ôl babi.**

Os ydych yn fywiog, brwdfrydig a chyfrifol a dim yn ysmygu, mae gennym yr union swydd i chi. Mae arnom angen help cyffredinol i edrych ar ôl babi 4 mis oed. Gallwch fyw i mewn neu allan fel bo'r angen mewn pentre ar gyrrion Caerdydd. Am fanylion pellach cysylltwch â 0222 890661.

## APELIO

# HYN OLL YN EI CHALON

Yng Nghalendr y Mudiadau mis Hydref rhoddwyd rhag-hysbysiad am yr unig berfformiad yng Nghaerdydd o'r ddrama 'Hyn Oll yn ei Chalon'.

Stori yw'r ddrama am y Fair ifanc - y ferch sydd tu ôl i Forwyn Fair euraid yr Icon; y ferch sydd tu fewn i'r Fair welw, oer, gerfiedig; y ferch sydd o dan groen y Fair a'r wyneb tangnefeddus ar ganfas mewn ffram, yn hongian yn rhan o addurn mur eglwys neu oriel.

Mewn perfformiad gorchestol fe gerddodd Mair Mari Rhian Owen yn llythrennol allan o ffram llun, a dod yn Fair ifanc o Iddewes lygatddu. Daeth yn berson real; yn galon llawn cariad ac ofn; yn enaid llawen eto'n gynefin â doluriau bywyd merch, gwraig a mam; un a wybu gael a cholli.

Yn gwmni cerddorol iddi fe greodd Mair Tomos Ifans awyrgylch cerddorol oedd yn gyson gydnaws â phob un o sefyllfaoedd bywyd.

Ar ran y dyrnaid a ddaeth i'r perfformiad, diolch i Gwmni'r Arad Goch am roi i mi Fair oedd yn fwy na chroth, bronnau ac arffed.

Llygad-dyst

# PAN DDAW YFORY

Casgliad o ganeuon poblogaidd

Mae Alun Guy wedi trefnu casgliad o'r caneuon poblogaidd Cymraeg mwyaf adnabyddus, ac mae'r gyfrol, *Pan Ddaw Yfory*, ar werth yn barod. Yn eu mysg mae rhai o'r caneuon ysgafn Cymraeg mwyaf adnabyddus gan gynnwys *Ysbryd Y Nos*, *Chwarae'n Troi'n Chwerw* a *Pan Ddaw Yfory*.

Yn ôl y cyhoeddwyr, Cyhoeddiadau Curiad o Ben-y-groes ger Caernarfon, bydd *Pan Ddaw Yfory* yn llenwi bwlch yn y farchnad ac yn ateb y galw sydd am fersiynnau hen nodiant o ganeuon poblogaidd Cymraeg. Mae Alun wedi trefnu'r caneuon mewn modd sy'n golygu eu bod yn hwylus i'w defnyddio yn y dosbarth - cynradd neu uwchradd, lle mae galw mawr am ddeunydd lleisiol cyfoes neu ganeuon addas ar gyfer gwaith TGAU, er enghraifft. Mae'r awdur yn ei ragair i'r gyfrol yn rhoi syniadau defnyddiol ar sut i wneud llawn ddefnydd o'r caneuon yn yr ysgol a sut i'w cyflwyno i'r plant.

Disgwylir yn ogystal y bydd y gyfrol hon yn profi'n boblogaidd gyda chorau, aelwydydd a chlybiau ieuenctid sy'n chwilio am ganeuon ysgafn newydd i'w defnyddio mewn cyngherddau. Mae hefyd yn cynnig deunydd cerddorol i gantorion o bob oed, a gobeithio'n wir y bydd y trefniannau yn ychwanegu at draddodiad cerddorol cyfoethog Cymru. Pris y gyfrol yw £5.50.


DYDD MAWRTH 28 hyd DDYDD GWENER 31 RHAGFYR 7.30pm
Matinée 2.30pm ddydd Iau 30 Rhagfyr

COMEDI FORWROL GLASUROL

GILBERT & SULLIVAN

HMS PINAFORE

Cynhyrchiad llwyfan byrlymus gyda
CHERDDORFA A CHORWS
YR OPERETTA
GENEDLAETHOL



Neuadd Dewi Sant

☎ (0222) 371236/235900

Tocynnau £11.50 £13.50 £16.50 £19.50
(gostyngiadau ar gael i blant)

DINAS CAERDYDD CITY OF CARDIFF

APOLLO

*Paul Jones*
*Canolfan Y Cyfryngau*
*Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ*
*0222 590119*

*TALENT NEWYDD*

*Mae Ffilmiau Apollo yn chwilio am gantorion, yn unigolion a grwpiau, i ymddangos mewn cyfres newydd gerddorol ysgafn dull 'Cabaret' i'r teulu.*
*Cynhelir gwrandawiadau ym mis Rhagfyr mewn nifer o ganolfannau ledled Cymru.*
*Os oes gennych ddiddordeb danfonwch dap, llun a CV atom cyn gynted a phosib.*

SIÔN CORN CYMRAEG

Adran Deganau Dan Evans y Barri
Bob pnawn Sadwrn yn Rhagfyr
1.30pm - 5.00pm

dan evans

**Y siop i bob aelod o'r teulu**
**Heol Holton**
**Y Barri**
**0446 734242**

# PLANT MEWN ANGEN 1993

**TACHWEDD 26**

Cyfraniadau arian ar:
(0222) 552121

S4C

holl hwyl y codi arian dros Gymru trwy gydol y nos gyda Nia Chiswell a Rhodri Ogwen Williams yn fyw o stiwdio Barcud, Carnarfon.

BBC CYMRU WALES

Angharad Mair a Roy Noble yn ymumno a'r bwrlwm yng Nghaerdydd, ac yn cadw llygad Cgyfan.

BBC RADIO CYMRU

adroddiadau cyson trwy gydol y dydd o bob cwr o Gymru gyda chyngerdd mawreddog o Langadfan yng nghwmni Hywel Gwynfryn a Sulwyn Thomas yn cloi'r diwrnod.

BBC RADIO WALES

newyddion diweddaraf y codi arian drwy'r dydd ac Owen Money a'i fand yn diddanu cynulleidfa fyw yng Nghaerdydd gyda'r nos.

